



# Teulu

## Teulu Hedd Wyn

Mae enwau plant Mary ac Evan Evans wedi eu nodi ym Meibl y teulu yn yr Ysgwrn.

Fel y gwelir yn y goeden deulu, bu farw dau o'r plant yn ifanc iawn, a hynny o fewn ychydig ddyddiau i'w gilydd. Credir i'r ddau farw o ganlyniad i salwch oedd yn achosi twymyn. Cafodd y ddau blentyn bach eu claddu ar yr un diwrnod. Roedd marwolaethau ymysg plant yn gyffredin iawn yn y cyfnod hwn, beth yw'r rheswm am hyn yn eich tyb chi?

Ond collodd Mary ac Evan Evans dri phlentyn arall.

- Gwyddom wrth gwrs i Ellis (Hedd Wyn) farw yn y Rhyfel Mawr yn 1917.
- Bu farw Dafydd o Ffliw Sbaen yn 1918.
- Bu farw Ann yn 1932, gan adael 4 o blant ifanc.



**TRA YN YR YSGWRN EDRYCHA YN FANWL AR Y GEGIN. DYMA GALON Y CARTREF.**

**DYCHMYGA HOLL BLANT YR YSGWRN YMA. SUT LE FYDDAI GEGIN YR YSGWRN YNG NGHYFNOD HEDD WYN?**

**OES YSTAFELL DEBYG SY'N DY GARTREF DI?**



## Teulu 1910

Cefn, o'r chwith i'r dde: Ellis (Hedd Wyn), Cati, Magi, Dafydd, Mary.

Rhes flaen: Mary Evans gydag Enid yn ei chôl, Ifan, Ann, Bob ac Evan Evans.

## Techedd plant a babanod ar ddechrau'r ganrif.

Dyma ystadegau a ymddangosodd ym mhapur newydd Yr Herald Gymraeg, 27 Gorffennaf 1909. Dyma nifer o fabanod o dan 12 mis fu farw yn 1907.

Tref	Nifer o bob mil plentyn o dan 12 mis
Pwllheli	236
Conwy	172
Cricieth	55
Betws y coed	47



## Her i ti...



Disgrifia deulu, gall fod yn deulu go iawn neu yn un dychmygol:

- Beth sy'n gwneud teulu?
- Pwy sy'n rhan o'r teulu?
- Cyllideb a gwariant y teulu.
- Gwaith aelodau o'r teulu.
- Cyfrifoldebau o fewn y teulu.
- Rheolau a thegwch.

## Arian yn 1900

Cyn i'r system ddegol gychwyn yng ngwledydd Prydain yn 1971 roedd arian yn cael ei gyfrif mewn dull gwahanol. Dyma rai o'r darnau arian y byddai Ellis Evans a'i deulu yn eu defnyddio:

**12 ceiniog - 1 swllt**  
**20 swllt - £1**  
**240 ceiniog - £1**

Byddai pris yn cael ei nodi gyda (£) punt, (s) swllt neu (d) ceiniog. Weithiau byddai pris yn cael ei ddangos fel 6/4, neu 6s 4d - sef 6 swllt a 4 ceiniog.

Ydy ein system arian ni heddiw yn fwy hwylus tybed? Pa dablau sy'n ddefnyddiol iawn i ni heddiw?

## Digon i fyw?

Ar ddiwedd y 19G roedd cyflog chwarelwr yn tua 30 swllt yr wythnos ar gyfartaledd.

Ar ddiwedd y 1800 roedd cyflog gwas fferm yn tua 13 swllt yr wythnos. Erbyn 1934 roedd cyflog wythnos morwyn fach yn parhau yn ddim ond 7/6. Ond roedd cyflogau yn amrywio'n fawr o ardal i ardal, a byddai'r gweithiwr yn aml yn gorfod bargeinio am ei gyflog.

Roedd wythnos waith yn 10 awr y dydd am 6 diwrnod. Dim ond dydd Sul oedd yn ddiwrnod gorffwys.

### Prisiau Bwyd:

Blawd	6lb 9oz = 08d
Siwgr	2lb 3oz = 05d
Cig Moch	14oz = 10d

### Prisiau nwyddau:

Beic	£15/15s
Camera	£1/1s
Oriawr	£1/5s

## Addysg

Erbyn 1911, roedd y rhan fwyaf o blant yn derbyn addysg hyd at 13 oed. Ond dim ond tua 1% ohonynt fyddai'n mynd ymlaen i addysg uwch.

## Gwaith a gyrfa 1900

Gwaith	Amcan cyflog 12 mis
Gweini mewn tŷ bonedd.	£16
Glöwr neu weithiwr yn y pyllau glo.	£80 yn ddibynnol ar faint o lo oedd ar gael
Plismon	£80
Nyrs Staff	£40

